Gwreiddio'n ddwfn i dyfu'n eang

**Cylchlythyr Chwefror 2026** ***February Newsletter 2026***

**https://www.ysgolygelli.cymru**

am ragor o wybodaeth a lluniau/ for additional information and photos

## Croeso i Mr Pritchard - Welcome Mr Pritchard



Croeso mawr i **Mr Pritchard**! Rydym yn falch iawn o'i groesawu i'r ysgol fel ein dirprwy newydd ac athro Blwyddyn 6. Edrychwn ymlaen yn fawr at weithio gydag ef ac at y syniadau newydd a'r effaith gadarnhaol y bydd yn ei chael ar yr ysgol.

A big welcome to **Mr Pritchard**! We're really pleased to welcome him to the school as our new Deputy Head and Year 6 teacher. We're looking forward to working with him and to the positive impact, fresh ideas and enthusiasm he'll bring to our school community.

## Ffarwel i Anti Sharon - Farewell to Anti Sharon



**Rydym am ddiolch o galon i'n ysgrifenyddes Mrs Sharon Wyn Ellis Owen am bopeth wnaeth dros yr 12 mlynedd diwethaf. Mae ei gofal, ei chefnogaeth a'i hwyl bob amser wedi gwneud gwahaniaeth mawr i'r ysgol a'r plant. Rydym yn dymuno'r gorau iddi yn ei ymddeoliad – mwynhewch bob eiliad gyda'ch teulu a'ch ffrindiau.**

We want to say a big thank you to our school secretary Mrs Sharon Wyn Ellis Owen for everything she's done over the past 12 years. Her help, support, and cheerful spirit have made a huge difference to the school and the children. We wish her all the best in her retirement – enjoy every moment with your family and friends

## Croeso i Ned - Welcome Ned



Rydym yn ffodus iawn o allu croesawu Ned i deulu ysgol y Gelli. Bydd Ned yn helpu plant trwy wrando arnynt yn darllen, ac yn gwneud y sesiynau darllen yn hwyliog a chyfeillgar. Rydym yn siŵr y bydd yn cael llawer o fwythau a chariad gan blant y Gelli.

**We are very lucky to be able to welcome Ned to the Gelli school family. Ned will help children by listening to them read, making the reading sessions fun and friendly. We're sure he will get lots of cuddles and love from the children at Gelli.**

## Pêl-rwyd Cymysg yr Urdd- Mixed Netball Team




**Llongyfarchiadau mawr i'r plant a ddaeth yn ail yng ngystadleuaeth pêl-rwyd Cymysg yr Urdd Rhanbarth Eryri.**
**Big congratulations to the children who came second in the Urdd Eryri Region Mixed Netball competition.**

## Cymharu Patagonia a Chymru - Comparing Wales and Patagonia




**Mae'r ysgol yn bwriadu cynnal Eisteddfod Ysgol am y tro cyntaf ar Fawrth 20**

eleni. Y plant fydd yn gyfrifol am ei chynllunio a'i threfnu. Yn ffodus iawn,cytunodd Esyllt Nest Roberts, merch yn wreiddiol o Ffor, ond sydd bellach wedi ymgartrefu ym Mhatagonia i ddod draw i drafod y gwahaniaeth a'r tebygrwydd rhwng eisteddfod ym Mhatagonia a Chymru.Cawsom fore diddorol iawn yn ei chwmni.

The school is planning to hold a School Eisteddfod for the first time on March 20th this year. The children will be responsible for planning and organising it. We were very fortunate that Esyllt Nest Roberts, originally from Ffor but now living in Patagonia, agreed to come in to discuss the differences and similarities between an Eisteddfod in Patagonia and in Wales. We had a very interesting morning in her company.

## Gweithdy Gwyddoniaeth M-Sparc
## M-Sparc Science Workshop



Cafodd Steffan, Elis, Megan a Daniel brofiad gwych mewn gweithdy gwyddonol gyda chwmni M-Sparc.

Steffan, Elis, Megan and Daniel had a great experience in a science workshop with the company M-Sparc.



## Blwyddyn 4 yn archwilio adar i RSPB
## Year 4 Bird Survey for RSPB

**Mwynhaodd plant Blwyddyn 4 archwilio adar fel rhan o gynllun RSPB. Edrychoddynt yn ofalus ar eu lliw, siap corff a chân. Rhoddodd y gweithgaredd gyfle iddynt ddysgu am fywyd gwyllt ac i werthfawrogi natur.**

**Year 4 children enjoyed exploring birds as part of the RSPB project. They carefully looked at their colours, body shapes, and songs, and recorded their findings with great enthusiasm. The activity gave them a chance to learn about wildlife and to appreciate the nature around them**

## Dathlu Penblwydd Mr Urdd - Mr Urdd Birthday Celebration

Bu'r ysgol y dathlu penblwydd Mr Urdd yn 104 oed trwy wisgo dillad coch, gwyn a gwyrdd. Llwyddwyd i gasglu £150 tuag at gronfa Eisteddfod yr Urdd yn Eryri yn 2028. Diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd.


**The school celebrated Mr Urdd's 104th birthday by wearing red, white and green. A total of £150 was raised towards the Urdd Eisteddfod fund in Eryri in 2028. Many thanks to everyone who contributed.**





## Eisteddfod Offerynnol yr Urdd – Instrumental Eisteddfod





**Llongyfarchiadau mawr i Bleddyn Tomos ac Owain Wyn am ddod yn gyntaf yng nghytadleuaeth unigol offerynnol yr Urdd. Hefyd, llongyfarchiadau i Lludd Jones a Band y Gelli am ddod yn ail ac i bawb a fu'n cystadlu yn Eisteddfod Offerynnol yr Urdd.**

A big congratulations to Bleddyn Tomos and Owain Wyn for coming first in the Urdd individual instrumental competition. Also, congratulations to Lludd Jones and the school band for coming second, and to everyone who took part in the Urdd Instrumental Eisteddfod.



## Baner Gwyl Ddewi - St Davids Banner

Diolch o galon i artisiaid C.A.R.N am ddod i weithio gyda phlant Blwyddyn 3 i 6 a rhoi profiad celf mor arbennig iddyn nhw. Roedd hi'n braf gweld y plant yn mwynhau cydweithio a bod yn greadigol wrth wneud baner hyfryd ar gyfer dathlu Dydd Gŵyl Dewi yn yr orymdaith yng Nghaernarfon.

A huge thank you to the artists from C.A.R.N for coming to work with our Year 3 to 6 children and giving them such a special creative experience. It was wonderful to see the children enjoying working together and being so creative while making a beautiful banner to celebrate St David's Day for the parade in Caernarfon.

## Blwyddyn 6 - Codi Ymwybyddiaeth o Dementia
## Year 6 - Dementia Awareness




Mae disgyblion Blwyddyn 6 wedi cael y fraint o fod yn rhan o gynllun Codi Ymwybyddiaeth Dementia. Byddant yn cymryd rhan mewn Twrnament Boccia Pontio'r Cenedlaethau, sef digwyddiad sy'n cynnig cyfle i bobl o bob oed, sydd yn

byw gyda dementia, chwarae gem Boccia (sy'n debyg i'r gem Bowls) gyda'r plant. Mae'r digwyddiad hwn yn ffordd wych o hyrwyddo cydweithrediad rhwng cenedlaethau a chynyddu ymwybyddiaeth am y cyflwr.


Year 6 pupils have had the privilege of taking part in a Dementia Awareness project. They will participate in an Intergenerational Boccia Tournament, which provides an opportunity for people of all ages living with dementia to play Boccia (a game similar to bowls) alongside the children. This event promotes positive intergenerational relationships and raises awareness of dementia.

## Criw Stori'r Beibl



Diolch i griw Stori'r Beibl am ddod i gynnal gwasanaeth a chyflwyno un o'r damhegion i'r plant mewn ffordd ddifyr iawn.

**Thanks to Stori'r Beibl for coming to present one of the parables to the children in a very engaging service.**




## Dydd Miwsig Cymru
## Welsh Music Day

Diolch i Mr Gwydion am gael cyd-ganu caneuon poblogaidd pop Cymraeg. Pawb wedi cael modd i fyw.

**Thank you to Mr Gwydion for the opportunity to sing popular Welsh pop songs together. Everyone really enjoyed themselves.**

## Digwyddiadau Tymor Nesaf / *Next Term Events*

| Dyddiad/Date | Digwyddiad/Event | Pwy / Who |
|---|---|---|
| 23/02/26 | Ysgol ar agor i blant<br>School open for children | Pawb<br>Everyone |
| 26/02/26 | Rygbi Agored yr Urdd - Clwb rygbi Caernarfon<br>Urdd Open Rugby - Caernarfon Rugby Club | Blwyddyn 5 a 6<br>Year 5 + 6 |
| 26/02/26 | Gwasanaeth Gwyl Ddewi (9.15am-9.45am)<br>St Davids Service (9.15am-9.45am) | Rhieni Bl 1 a 2<br>Parents Year 1 + 2 |
| 27/02/26 | Diwrnod Codi Ymwybyddiaeth o Dimentia<br>Dimentia Awarenes Day | Blwyddyn 6<br>Year 6 |
| 27/02/26 | Gwasanaeth - Criw Stori'r Beibl- Assembly | Pawb<br>Everyone |
| 28/02/26 | Eisteddfod Cylch yr Urdd - ysgol Brynrefail<br>Urdd Eisteddfod - Brynrefail school | Pawb<br>Everyone |
| 2+3/03/26 | Noson Rhieni<br>Parent Evening | Pawb<br>Everyone |
| 4/03/26 | Diwrnod y Llyfr<br>Book Day | Pawb<br>Everyone |
| 6/03/26 | Gala Nofio Ysgolion<br>Schools Swimming Gala | Tim nofio Bl 3-6<br>Swimming Team<br>Yr 3-6 |
| 11/03/26 | Cyflwyniad Makaton Session | Blwyddyn 1 +2<br>Year 1+ 2 |
| 12/03/26 | Gweithdy Lego - Storiel, Bangor<br>Lego Workshop - Storiel, Bangor | Blwyddyn 3 a 4<br>Year 3 + 4 |
| 14/03/26 | Eisteddfod Sir yr Urdd - Pontio<br>Urdd County Eisteddfod - Pontio | Pawb<br>Everyone |
| 16/03/26 | Eisteddfod Dawnsio'r Urdd<br>Urdd Dancing Eisteddfod | Pawb<br>Everyone |
| 18/03/26 | Gig Mei Gwynedd - Galeri<br>Mei Gwynedd Gig - Galeri | Blwyddyn 6<br>Year 6 |
| 19/03/26 | Rugby Tag Cymysg yr Urdd<br>Urdd Mixed Tag Rugby | Blwyddyn 3 a 4<br>Year 3 +4 |

| | | |
|---|---|---|
| 20/03/26 | Eisteddfod Ysgol<br>School Eisteddfod | Pawb<br>Everyone |
| 23/03/26 | Gwers nofio olaf<br>Last Swimming Lesson | Blwyddyn 2<br>Year 2 |
| 26/03/26 | Gwers Nofio olaf<br>Last Swimming Lesson | Blwyddy 4<br>Year 4 |
| 27/03/26 | Gwasanaeth y Pasg (9.15am-9.45am)<br>Easter Service (9.1am5-9.45am) | Rhieni: Meithrin a Derbyn<br>Parents: Nursery and Reception |
| 27/03/26 | Diwrnod ola'r tymor<br>Last day of term | Pawb<br>Everyone |
| 13/04/26 | Ysgol ar agor i blant<br>School open for children | Pawb<br>Everyone |

Mwynhewch gwyliau hanner tymor a diolch am bob cefnogaeth

Enjoy Half Term Holidays and thank you for all the support



